**COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANYNYS GYNHALIWYD NOS FAWRTH 15 GORFFENAF 2025 YN Y PAFILIWN, RHEWL AM 7.45 PM**

PRESENNOL: Cynghorwyr Joyce Terzo (Cadeirydd), Sian Davies, Iona Jones, Clwyd Thomas, Arwel Jones, Wyn Wilkinson, Brynle Lloyd, Gwyn Howatson a'r Clerc

YMDDIHEURIADAU: Cynghorwyr Dewi Roberts, Merfyn Parry

1. CROESO GAN Y CADEIRYDD
   Croesawodd y cadeirydd pawb ac hefyd y clerc newydd – Steve Thomas

2. YMDDIHEURIADAU
   Cynghorwyr Dewi Roberts, Merfyn Parry

3. DATGAN DDIDDORDEBAU
   Dim

   a) Cymeradwyo Cofnodion17 Mehefin, 2025 – Cadarnhawyd y cofnodion fel yn gywir
   b) Materion sy'n codi
      Pwynt 5 – Roedd y Cynghorydd Sian Davies wedi cysylltu a'r Cyngor ond doedd dim ymateb wedi dod yn eu rhan
      Pwynt 11 – Rhoddodd y Cynghorydd Sian Davies wybod am y mater i'r Cyngor

4. ADRODDIAD ARIAN
   Mae dros £25,000 yn y banc ar hyn o bryd ond roeddem wedi cymeradwyo rhoi cyfraniad o £7,000 i'r Capel. Rwan bod y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2025 wedi'u cwblhau gan y cyfifwyr, cawsom anfoneb am £600 (+TAW £120) am y gwasanaeth. Cafwyd adroddiad hefyd fod yr anfoneb yswriant bron i £1,000 ac roedd yn ymddangos bod cynghorau eraill yn gallu cael hyn yn rhatach.
   Penderfynwyd y dylai`r clerc gael gair pellach gyda`r cyfrifwyr yng nglyn a cofnodion ariannol y flwyddyn sydd wedi dod i ben a chysylltu gyda`r cwmni yswiriant.

5. Y DIWEDDARAF AR GYFRIFON 24/25
   Rhoddwyd copi o'r cyfrifon i'r cadeirydd i'w arwyddo

6. CEISIADAU CYNLLUNIO
   Preswylfa menter wledig yn Ty Mawr – dim gwrthwynebiadau

7. HYSBYSIADAU o`r Cyngor Sirol
   Dim hysbysiadau wedi'u derbyn

8. CYMERADWYO CÔD YMDDYGIAD GYDA DEFNYDDIO GRWPIAU AR WHATSAPP
   Roedd y cynghorwyr wedi derbyn copi o'r Polisi a ddarparwyd gan y Cynghorydd Merfyn Parry. Cafodd hyn ei fabwysiadu a chafodd pawb oedd yn bresennol ei arwyddo i gadarnhau.
   GWEITHRED – Mae gan y Cynghorydd Dewi Roberts dal angen ei arwyddo

**COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANYNYS GYNHALIWYD NOS FAWRTH 15 GORFFENAF 2025 YN Y PAFILIWN, RHEWL AM 7.45 PM**

9. CWYNION
10. Ni ddaeth cwynion i law

11. DYDDIADAU CYFARFOD AM Y FLWYDDYN
    Mae'r dyddiadau canlynol wedi'u cymeradwyo
    Dydd Mawrth 2 Medi 2025
    Dydd Mawrth 11 Tachwedd 2025
    Dydd Mawrth 13 Ionawr 2026
    Dydd Mawrth 10 Mawrth 2026
    Dydd Mawrth 8 Mai 2026 (CCB)

12. UNRHYW FATER ARALL
    a) Gofynnodd y Clerc am ganiatad i brynu Microsoft 365 i roi ar y laptop y Cyngor – roedd pawb yn fodlon
    b) Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi trafod y gwaith angenrheidiol ar y wefan gyda'r Cynghorydd Sian Davies ac y byddai hi'n rhoi ei manylion cyswllt iddo i fynd ar mater yn ei flaen.
    c) Trafodwyd y mater hyfforddiant, ac roedd y Cynghorydd Iona Jones wedi darparu manylion cyswllt i'r Clerc i gael y rhestr ddiweddar o "One Voice"
    d) Trafodwyd rhoi coeden Nadolig yn y pentref – Cytunodd y Cynghorydd Iona Jones i gysylltu â'r Cyngor i symud y mater ymlaen
    e) Sgrin a phrosiectydd ar gyfer cyfarfodydd – Gofynnwyd I'r Clerc siarad gyda Mike Denman
    f) Codwyd y mate arwydd cyflmder Newydd – ni dderbyniwyd unrhyw newyddion
    GWEITHRED – Mae` r Clerc am gysylltu gyda gwasanaethau Cwsmeriad y Cyngor